

Mae'r cymhwyster hwn yn eich paratoi ar gyfer gweithio dan oruchwyliaeth, gyda phlant a'u teuluoedd mewn amrywiaeth o leoliadau ac amgylcheddau o fewn y sector Gwasanaethau Plant. Rhennir y cymhwyster yn dri cham: Dyfarniad, Tystysgrif a Diploma gyda'r Dyfarniad a'r Dystysgrif yn arwain at y Diploma Lefel 2.



Gall y cwrs yma gael ei gynnig i ddisgyblion Ysgol blwyddyn 10 - gyda'r rhan Dyfarniad a Thystysgrif yn cael eu cwblhau ym mlynnyddoedd 10 ac 11 a'r rhan Diploma o'r lefel 2 ym mlwyddyn 12.

(Ar ôl llwyddo yn y rhan Tystysgrif o'r cwrs Lefel 2 ym mlwyddyn 11, gall myfyrwyr os mynnant, fynd ymlaen i astudio'r cwrs Dyfarniad / Tystysgrif/Diploma Lefel 3 ym mlwyddyn 12 a 13).

Mae'r cwrs Dyfarniad / Tystysgrif / Diploma Lefel 2 gyfwerth a 5 TGAU -
Dyfarniad - 1 TGAU
Tystysgrif - 3 TGAU
Diploma - 5 TGAU

Beth fyddwch yn ei astudio?

Mae'r cwrs yn edrych ar wahanol agweddau o Ofal Plant. Byddwch yn astudio unedau sy'n cynnwys y canlynol:

- Cyflwyniad i weithio gyda phlant
- Datblygiad Plant
- Amgylchedd iach a Diogel ar gyfer Plant
- Plant a Chwarae
- Sgiliau Proffesiynol a Chyfathrebu o fewn Gofal ac Addysg plant.

Bydd y cwrs hefyd yn cynnwys cyfnod o brofiad gwaith mewn sefydliad Gofal ac Addysg Plant.

Sut fyddwch yn cael eich asesu?

Caiff y cwrs ei gyflwyno a'i asesu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r dull asesu yn cynnwys Prawf Cwestiwn Aml-ddewis, Aseiniadau, Portffolio a Chofnodion Tystiolaeth o waith Ymarferol yn y lleoliad.

Dilyniant o'r cymhwyster hwn.

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, gallwch fynd ymlaen i astudio cyrsiau lefel uwch, megis Dyfarniad / Tystysgrif / Diploma CACHE Lefel 3 mewn Gofal ac Addysg Plant, neu fynd ymlaen i weithio mewn sefydliad Gofal ac Addysg Plant - e.e. Cynorthwywraig Feithrin mewn Ysgol, Meithrinfa Ddydd neu Gylch Meithrin.

Gofal ac Addysg Plant

Dyfarniad/Tystysgrif/Diploma Lefel 2

